



LLITHIADUR CYFFREDIN

Nodiadau

Pregeth at Amser y Cread 2012

Seiliwyd ar y Llithiadur Cyffredin Diwygiedig

Llun: Paneli haul ar yr Eglwys yn Uno yn Caloundra, Queensland, Awstralia

Paratowyd gan y Parchg Mike Gilbert i Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon

Rhagarweiniad yr Awdur

Cread Duw a Chynaladwyedd

Mewn ymdrech i fod yn ffyddlon i'r ysgrythurau, cymerais yn fan cychwyn y darlleniadau a osodir yn y llithiadur, ond gan ganolbwyntio ar y pwysleisiadau arbennig ynddynt a allai fod o fudd yn Amser y Cread. Er imi olrhain thema trwy'r darlleniadau, y maent yn llefaru wrthym fel testunau unigol neu fel storïau heb eu cyfyngu'n thematig.

Yn arbennig, rwy'n ceisio darganfod a oes gan y testunau hynafol ond bywiol hyn rywbeth i'w ddweud wrthym mewn cyfnod o argyfwng ecolegol ac yn ein hangen i ddod o hyd i ddull cynaliadwy o fyw ar blaned orlawn â'i hadnoddau'n gyfyngedig.

Dywedir bod Karl Barth[1] o'r farn y dylid darllen y Beibl yn un llaw a'r papur newydd yn y llall. Awgrymaf y dylid ar yr un pryd edrych ar y cread.

[1] Karl Barth, Diwinydd o'r Swistir, 1886-1968

Nid yw'r nodiadau hyn yn rhoi braslun llawn o bregeth, ond y mae ynddynt ddetholiad cyfoethog o awgrymiadau, mannau cychwyn a thrywydd meddwl.

Adnodau o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig, Cymdeithas y Beibl, hawlfraint 2004. Defnyddir trwy ganiatâd.
Cedwir pob hawl.

Wythnos 1: 2 Medi
Cynaladwyedd: Ffordd Duw: Dilyn cyfarwyddyd y gwneuthurwr
Caniad Solomon 2:8-13
Deuteronomium 4:1-2, 6-9
Iago 1:17-27
Marc 7:1-8, 14-15, 21-23

Wythnos 2: 9 Medi
Cynaladwyedd ac Adferiad: Adfer y campwaith
Eseia 35:4-7a
Iago 2:1-10, 14-17,
Marc 7:24-37
(*Diarhebion 22:1-2, 8-9, 22-23, Salm 125, Salm 146*)

Wythnos 3: 16 Medi
Cynaladwyedd a Christ: Adnabod y Meistr
Salm 19
Marc 8:27-38
Eseia 50:4-9a
(Diarhebion 1:20-3, Salm 116:1-9, Doethineb Solomon 7:26 - 8:1, Iago 3:1-12)

Wythnos 4: 23 Medi
Cynaladwyedd a Diwylliant: Gofyn y cwestiynau mawr
Jeremeia 11:189-20,
Iago 3:13-4:3, 7-8a,
Marc 9:30-37,
(Diarhebion 31:10-31, Salm 1, Doethineb Solomon 1:16-2:1, 12-22)

Wythnos 5: 30 Medi
Cynaladwyedd a Pherthynas: Perthynas â'r meistr
Iago 5:13-20
Numeri 11:4-6, 10-16, 24-29
Marc 9:38-50
(*Esther 7:1-6, 9-10; 9:20-22, Salm 124, Salm 19:7-14, Iago 5:13-20*)

Llun o fferm wynt: Chrishna

www.ctbi.org.uk/creationtime

Cynaladwyedd: Ffordd Duw:

Dilyn cyfarwyddyd y gwneuthurwr



Llun: David Muir

Wythnos 1: 2 Medi

Deuteronomium 4:1-2, 6-9
Marc 7:1-8, 14-15, 21-23
Iago 1:17-27
Caniad Solomon 2:8-13

Pan gaf becyn o ddarnau o ddodrefnyn i'w gosod ynghyd, fe'm temtir bob amser i anwybyddu cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, gan feddwl mai fi sy'n gwybod orau sut i fynd ati. Y canlyniad yn aml yw cwpwrdd dillad sydd ar sgiw ac amryw sgriwiau dros ben nad ymddengys eu bod yn ffitio yn unman.

Dyna'n aml ddull dynolryw o weithredu; dyfeisio ein rheolau a'n ffyrdd ein hunain yn hytrach nag ufuddhau i orchmynion Duw. Bu'r canlyniadau i'r ddynolryw a'r byd naturiol yn andwyol. Yn ôl Wendell Berry, y mae'r modd yr ydym yn "dinistrio natur nid yn unig yn stiwardiaeth wael, yn economeg ynfyd, ac yn bradychu cyfrifoldeb teuluol; y mae hefyd yn gabledd ysgeler."[1]

Gosodir **Deuteronomium 4** ar ffin Gwlad yr Addewid, a phobl Dduw ar fin mynd i mewn iddi. Y maent ar y ffin yn ddaearyddol ac yn ddiwinyddol. Mae'n hanfodol felly, er eu mwyn hwy eu hunain ac er mwyn y cenedlaethau sydd i ddod, eu bod yn gwneud pethau'n iawn (adn 9). Mae'r awdur yn erfyn ar y bobl i ddilyn gorchmynion a chyfreithiau Duw, nid i'w caethiwo ond i sicrhau eu bod yn ffynnu. Dyma ganllawiau'r bywyd duwiol a fydd yn galluogi pobl Dduw i fyw'n dda gydol y cenedlaethau dan un â diogelu gweddill y greadigaeth. Y mae meddiannu'r wlad hon, sy'n llifeirio o laeth a mêl ac sy'n naturiol ac ysbrydol gyfoethog, yn gyfle ardderchog ac yn beth i'w ddathlu. Y mae hefyd yn rhodd oddi wrth Dduw sy'n gofyn ei goruchwylio. Ein cyfrifoldeb felly yw bod yn 'ofalus, a gwylio'n ddyfal rhag iti anghofio'r pethau a welodd dy lygaid, a rhag iddynt gilio o'th feddwl' (Deut 4:9). Peth cwbl ganolog i'r ffyniant dynol hwn yw cofio bob amser nad oes gan y bobl hawl i'r tir ond mai rhodd ydyw (adn 1). Y mae rhagdybio perchnogaeth ar y tir yn hytrach na'i ystyried yn rhodd yn arwain at ecsbloetio.

Dengys archwiliad pellach o Lyfr Deuteronomium a gweddill y Torah pa mor agos y cysylltiad rhwng gorchmynion Duw a'r cysyniad o ofalu am y cread a'i gynnal, er enghraifft cadw coed ffrwythau ar adeg rhyfel (Deut. 20:19-20).

Dyma thema anerchiad Iesu i'r Phariseaid yn **Marc 7**. Tybient hwy eu bod yn cadw gorchmynion Duw yn ffyddlon, ond y mae Iesu'n eu hannog i ailedrych ar y darlun ehangach ac i graffu ar wreiddyn y mater. Wrth ganolbwyntio cymaint ar ymddangos eu bod yn gwneud y pethau iawn a thicio'r blychau cywir, yr oeddent wedi colli golwg ar wir amcanion Duw.

[1] Wendell Berry; *Sex, Economy, Freedom and Community* (Efrog Newydd: Pantheon 1992) t98



Roedd cadw'r Corban (adn 11) yn ddull soffistigedig o esgus cyflawni dyletswyddau at Dduw dan un ag anwybyddu'r sawl a oedd mewn angen. Y mae Iesu, fel proffwydi'r Hen Destament o'i flaen, yn condemnio'n ddifalio'r sawl a wnâi hynny, ac yn eu galw'n rhagrithwyr (adn 6). 'Yr ydych yn anwybyddu gorchymyn Duw ac yn glynu wrth draddodiad dynol' (adn 8). Yn y geiriau hyn deil Iesu ddrych at ein calonnau ninnau, yn unigolion a chenedl. Ai chware crefydd yr ydym, neu a yw ein bywydau'n dangos mai ein gofal pennaf yw galwad Duw arnom i garu Duw ac i garu ein cymydog.

Effeithia'r alwad hon i garu Duw ac i garu ein cymydog ar y modd y byddwn yn goruchwylio'r adnoddau daearol a roddodd Duw inni. A ddefnyddir hwy i gynorthwyo'r tlotaf a'r mwyaf anghenus? Fe'n temtir i weiddi 'Corban', ac i barhau i ganolbwyntio ar ein bywyd eglwysig mewnol a'n hadeiladau eglwysig, gan anwybyddu'r sawl a wthiwyd i'r cyrion. Pobl dlotaf y byd sy'n teimlo waethaf effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac aflendid amgylcheddol. Mae gwarchod y cread a gweithio dros gynaladwyedd yn rhan o ufudd-dod deublyg – gofalu am y tlodion ac am fyd da Duw. Enghraifft o'r ufudd-dod deublyg hwn yw ynni cynaliadwy; er enghraifft y mae nod y Cenhedloedd Unedig o hyrwyddo a darparu poptai glân yn cyflawni angen rhai o bobl dlotaf y blaned ac ar yr un pryd yn gymorth i gadw'r cynefin naturiol o'u cwmpas. Dyma ymgais i garu Duw trwy gynorthwyo i gynnal adnoddau'r byd naturiol.

Iago 1:17-27. Mae'r epistol am heddiw yn un o'r darnau plaenaf a mwyaf heriol yn y Testament Newydd. Y mae hefyd, mewn sawl ffordd, yn un o'r darnau symlaf a chliriaf. Dywed Iago'n gwbl groyw nad mater o uniongrededd yw gwir grefydd ond mater o unionarfer, nid dim ond credu'r pethau iawn ond gwneud y pethau iawn hefyd. I Gristnogion, nid rhywbeth y gellir dewis ei wneud neu beidio yw gofalu am weddwon a phlant amddifaid, pobl dlotaf cymdeithas oes Iago a phob oes. Nid i ddweud 'cadwch yn gynnes, bwytewch yn dda' y galwyd Cristnogion ond i fod yn rhan o'r ateb ac yn gymorth i ddarparu cynhesrwydd a phoptai a bwyd. Dyna sut y mae Iago yn deall crefydd.

"Os yw'r eglwys yn dweud yn dduwiol, 'Eiddo'r Arglwydd y ddaear a'i chyflawnder' a heb fod yn ddim gwahanol mewn meddwl na gweithred i'r gymuned gyffredinol, pwy a ddenir at ei gair a'i haddoliad i 'ddod i weld' bod unrhyw ystyr i'w gwaith na'i hiachawdwriaeth? Eironig a chwerw yw tystio ar air onid oes hefyd dystio mewn gweithred".[2]

Sut y mae dehongli **CaniadSolomon** a dysgu gwersi oddi wrtho ynglŷn ag ynni cynaliadwy? Wel, fedrwch chwi ddim! Y cwbl y gallwch ei wneud yw mwynhau'r dathliad gogoneddus o gariad dynol yn ei holl gyfoeth. Y sialens wedyn yw hyn: os yw cariad Duw atoch chwi a mi hyd yn oed yn fwy gogoneddus a dwfn a real na chariad y ddeuddyn hyn, sut y dylem fyw i'w barchu ef ac i barchu pobl eraill?

[2] Joseph Sittler: *Evangelism and the Care of the Earth* in Preaching and the Witnessing Community (Philadelphia Fortress 1973) t104

Cynaladwyedd ac Adferiad

Adfer y campwaith

Wythnos 2 - 9 Medi

Marc 7:24-37
Eseia 35:4-7a
Iago 2:1-10, 14-17



Llun: Heal the Bay

Y mae adfer gweithiau'r meistri yn aml yn llafur cariad manwl ryfeddol gan bobl dra hyfedr a chanddynt angerdd at eu gwaith. Yn gynharach eleni, yn y Louvre, cafodd darlun Leonardo da Vinci 'Y Wyryf a'r Plentyn gyda'r Santes Ann' ei ddadlennu ar ôl ei adfer. Cawsai'r lliwiau gwreiddiol eu hadnewyddu ac y mae'r llun felly yn fwy disglair a ffres ac yn llawer nes at greadigaeth wreiddiol yr artist. Y mae'r gwahaniaeth mor rhyfeddol fel nad ymddengys ei fod yr un llun.

Y mae'r darlleniadau o'r Efengyl a'r Hen Destament yn gyforiog o themâu adfer.Yn **Marc 7** adferir i'r wraig o Syroffenicia yr hyn a oedd fwyaf gwerthfawr iddi. Fe wyddai pwy a allai wneud hynny, ac aeth yn syth at Iesu. Ag anwybyddu ei ateb enigmatig, y canlyniad oedd adfer ei merch yn rhyfeddol wyrthiol.

Yn yr un modd, adroddiad prydferth ac arno flas y pridd yw'r ail stori adfer yn yr Efengyl am Iesu'n gweddïo ac yn iacháu dyn byddar. Mae'n hawdd gweld sut yr oedd y dyn, yr adferodd Iesu mor rhyfeddol ei glyw a'i leferydd, yn ei chael hi'n anodd peidio â dweud am y peth. Er i Iesu, y meistr adferwr, ei rybuddio i beidio â dweud wrth neb, daeth pawb i wybod yn fuan iawn.

Gwelir y thema hon o adfer yn **Eseia 35** eto, y tro hwn ar ganfas ehangach na'r unigolyn. Er bod yr addewid o adferiad yn cynnwys achubiaeth ac iachâd dynolryw y mae'n cwmpasu'r cyfanfyd naturiol sy'n rhan o'r campwaith a adferir i'w liwiau gwreiddiol. Mae'r darluniau o'r anialwch yn blodeuo, ffynhonnau'n tarddu mewn crastiroedd a'r glaswellt yn troi'n gorsennau a brwyn yn cyfleu'n farddonol bod adfer y greadigaeth yn rhan o drefn iachawdwriaeth Duw. Nid deuoliaeth lle nad oes dim o bwys ond eneidiau dynol mo hyn ond dathliad llawen o waith y meistr adferwr yn ei holl greadigaeth. Fe'n gwahoddir i fod yn rhan o'r cynllun hwn o achubiaeth.

Y mae'r darn o Eseia yn farddoniaeth brydferth yn llawn arwyddion symbolaidd o iachawdwriaeth Duw ond y mae yma realiti llythrennol hefyd. Caiff adfer pobl Dduw effaith ar y cread oll. Mynega Paul hyn yn Rhufeiniaid 8:19-21. Rhaid inni ddisgwyl gweld tystiolaeth fod Duw ar waith nid yn unig yn adfer a thrawsnewid pobl a chyfundrefnau dynol ond hefyd yn trawsnewid yr amgylchedd a chyfundrefnau naturiol.



“Trwy’r Mab, y mae Duw’n creu, yn cymodi ac yn achub ei greadigaeth. Yng ngrym yr Ysbryd, y mae Duw ei hun yn bresennol yn ei greadigaeth – yn bresennol yn cymodi ac yn achub y greadigaeth honno.”[3] Fe’n gwahoddir ni, gyd-grewyr a llysgenhadon, i fod yn rhan o waith Duw yn trawsffurfio’r cyfanfyd. Beth a olyga hynny i chwi ac i’ch cymuned?

Yn **Iago 2:1-10** y mae Iago’n dal i siarad yn blaen. Does dim lle i guddio. Mae’n mynnu bod Cristnogion yn cydblethu eu haddoliad â’u bywyd. Mae’n egluro na ddylid dilyn safbwynt y byd bod meddiannau materol yn rhoi statws ond y dylid bod gogwydd at y tlawd.

Mewn amser o argyfwng amgylcheddol rhaid bod i’r gyfraith frenhinol, fel y disgrifia Iago hi, yr alwad i garu ein cymydog, ddimensiwn amgylcheddol. Golyga’r ffaith fod newid yn yr hinsawdd a thrychinebau naturiol yn anffafrio’r tlodion yn anghymesur fod yn rhaid inni, os ydym am gymryd o ddifrif eiriau llythyr Iago, weithio i ddatrys yr argyfwng amgylcheddol ac i liniaru effeithiau’r argyfwng hwnnw ar dlodion y byd. Golyga hynny roi sylw i’n ffordd o fyw, ymgyrchu dros bolisïau amgylcheddol mwy addas gan lywodraethau a chynorthwyo asiantaethau sy’n gweithio gyda’r sawl sy’n dioddef oddi wrth aflendid amgylcheddol ac anhrefn hinsawdd.

[3] Jurgen Moltmann *God in Creation* Gwasg SCM: Llundain 1985, t15

Cynaladwyedd a Christ

Cydnabod y Meistr

Wythnos 3 - 16 Medi

Marc 8:27-38
Eseia 50:4-9a
Salm 19



Llun: paul (dex) bica

Ystyria'r rhan fwyaf o ysgolheigion mai **Marc 8** yw calon yr Efengyl yn ôl Marc.Ar ôl iddynt dreulio peth amser gydag ef, y mae Iesu'n gofyn i'r disgyblion pwy y mae pobl yn ei feddwl ydyw. Yna, cyfeiria'r cwestiwn at y disgyblion eu hunain. Mae'n gwestiwn sy'n gofyn am ymateb personol. Mae Pedr yn ymateb â'r geiriau syml ond ysgytwol, 'Ti yw y Crist'. Mae'n adnabod pwy mewn gwirionedd yw Iesu. Ef yw'r Meseia, yr Un Dewisedig. Unwaith y dywedir y geiriau hyn o adnabyddiaeth, nid oes dim yr un fath mwyach. Dyma'r pryd y mae Iesu'n troi ei wyneb at Jerwsalem a dechrau dysgu beth y mae'r Crist yn mynd i'w wneud a beth y bydd yn rhaid iddo ei ddioddef (adn 31) er mwyn cyflawni ei waith.

Gwahoddir y sawl a adnabu pwy ydyw i gydgerdded ag ef a phrofi'r un bywyd a'r un farwolaeth. Nid yw'n ddysgeidiaeth hawdd. Rhaid bod y gorchymyn i godi croes a chanlyn yn ymddangos yn un caled ac anodd. Ddwy fil o flynyddoedd yn ddiweddarach mae'n dal i ymddangos felly. Eto, yn groes i bob greddf, y mae Iesu'n eu sicrhau mai dyma'r ffordd i fywyd.

Ni all y rhai hynny ohonom a wnaeth yr un gyffes ffydd ac a alwodd Iesu o Nasareth yn Grist, yr Arglwydd, ddisgwyl i bethau aros yr un fath. Bydd hyn yn effeithio ar bob agwedd o'n bywydau ac yn mynnu ein bod yn byw'n gyfan gwbl mewn ufudd-dod cariadus. Nid yw byth yn hawdd dilyn ffordd y groes ac eto dyma'r ffordd i fywyd. Dyma baradocs byw trwy farw.

Byddwn yn aml yn anghofio neu'n glastwreiddio galwad sylfaenol Crist arnom. Ond pe byddem o ddifrif yn adnabod y meistr yn ein holl fod ac yn y cyfan a wnawn, fe drawsffurfid ein byd. Ni fyddem yn glynu at ein hawliau nac yn mynnu cadw'r hyn sydd gennym, am y byddem yn cydnabod nad yr hyn sydd gennym sy'n dod â bywyd inni. Fe'n rhyddheid ni wedyn i fyw bywyd newydd. I Gristnogion mewn cyfnod o argyfwng ecolegol sut beth fyddai hynny? Does bosibl na fyddai'n cynnwys ymrwymiad i fyw'n syml wrth inni adnabod y meistr a cheisio byw mewn ymateb i'w alwad.

Y mae **Eseia 50** hefyd yn sôn am gost bod yn ddisgybl. Nid oes 'rhad ras', â defnyddio ymadrodd Bonheoffer[4], ym mywyd y disgybl. Ond er dioddef ymosodiadau a chamdriniaeth, fe ŵyr y gwas am gynhaliaeth a chymorth y Duw sofran. Ni fydd yn hawdd bod yn ddisgybl mewn cyfnod o argyfwng ecolegol a bydd llawer yn gwawdio ac yn cablu ein hymdrechion i fyw mewn ffordd a fydd yn bendithio Duw a'r greadigaeth ond gallwn fod yn hyderus y cawn ei gymorth a'i gynhaliaeth wrth inni geisio byw, trwy ei ras, mewn modd syml ond radical. I lawer sy'n digalonni wrth geisio gwneud beth sy'n iawn a byw'n gyfrifol y mae'r sicrwydd hwn o ras a nerth cynhaliol Duw yn hanfodol.

[4] Dietrich Bonheoffer *The Cost of Discipleship,* 1937



Dathliad yw **Salm 19** o'r hyn a alwodd diwinyddion yn 'ddau lyfr Duw', sef ei air ysgrifenedig a'r modd y mae'n llefaru trwy drefn natur. Calon y salm yw'r fawlgan i'r Torah a ddisgrifir fel melysach na mêl a mwy dymunol nag aur (adn 10). Gwelwn yma gymeriad Duw a dod i adnabod ei ffyrdd.

Pam felly bod y salm yn dechrau a'r ymadrodd 'Y mae'r nefoedd yn adrodd gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwylo' (adn 1)? Yn syml, am fod y Salmydd wedi'i gyfareddu gan brydferthwch a rhyfeddod y cread. Mae'n cydnabod Duw yn brif asiant trefn natur. Er mwyn gwybod pwy yw Duw a dirnad ei ffyrdd, at y ddau lyfr hyn y troes y traddodiad Cristnogol dro ar ôl tro. Fe gymer amser i astudio a dod i ddeall y ddau, ond bydd y ddau'n talu'n ôl ar eu canfed am yr ymdrech.

Pa mor aml y byddwn ni yn sefyll ac yn syllu mewn rhyfeddod a pharchedig ofn? Byddwn yn cymryd y gogoniannau'n ganiataol ac yn parhau â'n bywyd beunyddiol gan anwybyddu'r prydferthwch o'n cwmpas. Ac eto dyma 'ail lyfr Duw'. O'i astudio, gan wybod mai Duw yw ei brif asiant, deuwn i wybod mwy am y creawdwr. Os ydym yn argyhoeddedig y dylem drin cyfraith yr Arglwydd, y Beibl, â gofal mawr, sut y dylem drin yr ail lyfr a fu'n gymaint ysbrydoliaeth i'r Salmydd?

Cynaladwyedd a Diwylliant

Gofyn y cwestiynau mawr

Wythnos 4 – 23 Medi

Marc 9:30-37
Iago 3:13-4:3, 7-8a
Jeremeia 11:18-20



Llun: SolarEnima

Marc 9:30-37 -

Pwy yw'r mwyaf?

Nid oedd cwestiwn y disgyblion yn gwestiwn gwreiddiol. Dyma un o'r cwestiynau tragwyddol a ofynnir gan ddiwylliannau dynol gydol yr oesau. Mae ei ffurf ddiwylliannol yn newid ond yr un yw ei galon. Fe all mai'r ffurf fwyaf cyffredin arno yn ein diwylliant ni yw "pwy sy'n ennill fwyaf?" neu "pwy sydd â'r mwyaf o feddiannau?" Rhagdybir y bydd yr ateb yn datgelu ein gwerth.

Gallwch ddweud oddi wrth ymateb chwithig y disgyblion eu bod wedi treulio digon o amser gydag Iesu i wybod nad oedd hwn yn gwestiwn da. Yr oeddent yn iawn! Dadlennodd Iesu eu rhagdybiaethau diwylliannol trwy droi eu disgwyliadau wyneb i waered. Dewisodd blentyn – un nad oedd yn y diwylliant hwnnw yn neb – a dweud mai'r plentyn oedd fwyaf. Roedd Iesu'n byw ac yn pregethu teyrnas o chwith.

Beth felly fyddai ateb Iesu i'r cwestiwn yn nhermau heddiw? Ai'r ateb o chwith i'r cwestiwn "pwy yw'r mwyaf" fyddai mai'r mwyaf yw'r sawl nad oes ganddo ddim, neu y mae ganddo lawer ond sy'n byw'n syml, yn rhoi'n hael ac nad yw'n gofyn gwerth neb â'r gair 'beth' ond yn hytrach â'r gair 'pwy'? Ai'r un mwyaf yw'r sawl nad yw ei gyfoeth mewn blwch diogel mewn banc neu mewn modur mewn garej ond yn hytrach yn ei berthynas ag eraill a'r gwahaniaeth a wna hynny i'w bywydau?

Sut y byddai'r yun mwyaf yn wynebu cwestiynau cynaladwyedd?

Iago 3:13-4:3, 7-8a

Byw'r bywyd da

Dyma ymadrodd sydd i lawer yn gyfystyr â thai mawr, ceir cyflym a mordeithiau hir. Bydd eraill yn cofio cyfres drama deledu lle'r oedd Richard Briers a Felicity Kendall yn ceisio byw'n gynaliadwy trwy gadw moch ac ieir mewn gardd mewn maestref. Dyna ddwy ffordd dra gwahanol o fyw bywyd da.

Beth yw'r bywyd da y mae Iago'n meddwl amdano yn nhrydedd bennod ei lythyr? Bywyd da sy'n deillio o ddoethineb yw hwn. Mae'r darn yn gwrthgyferbynnu dau fath gwahanol iawn o ddoethineb. Yr hyn sy'n drawiadol yw bod a wnelo'r ddau fath yn y lle cyntaf nid â meddwl ond â gweithredu. Nid geiriau doeth ond bywyd da sy'n nodweddu'r ffordd y mae Iago'n meddwl am ddoethineb.



Â Iago ymlaen i fanylu ar y ffyrdd gwrthgyferbyniol hyn o fyw. Wrth wraidd un ohonynt y mae cenfigen chwerw ac uchelgais hunanol (adn 14-16). Mae'r awydd hwn am gael mwy na'r person nesaf, am gael ein hystyried yn well na'r person nesaf, beth bynnag y gost, yn dinistrio pob cytgord ac yn arwain at gweryla ac ymladd ar raddfa bersonol, deuluol, gymunedol, genedlaethol a byd-eang.

Disgrifiad byw sydd yn **Jeremieia 11:18-20** o ganlyniadau byw mewn cenfigen chwerw ac uchelgais hunanol. Pan fo ein holl fryd ar bleser a boddhad di-oed fe effeithir ar bobl ac ar y blaned. Pan fo cenedl gyfan yn byw fel hyn gall y canlyniad fod yn drychinebus. Yn ôl Iago, daw'r bywyd da o wir ddoethineb pan fo'n holl weithredoedd yn deillio o gymhellion pur ac awydd am heddwch. Bydd y tangnefeddwyr sy'n hau mewn heddwch yn medi cynhaeaf cyfiawnder (Iago 3:18).

Sut rai yw tangnefeddwyr doeth yr unfed ganrif ar hugain? Awgrymaf y bydd hyrwyddwyr cynaladwyedd ymhlith y rhai a fydd yn medi cyfiawnder.

Ceir enghreifftiau hyn mewn sawl lle, fel yn yr eglwys Fethodistaidd yn Swydd Efrog sy'n gwneud iawn am y nwyon y mae'n eu gollwng i'r awyr trwy brynu panelau haul i gymuned yn Affrica neu'r eglwys ym Manceinion sydd â chynllun arbed ynni nid iddi ei hun ond i'r gymuned.

Cynaladwyedd a Pherthynas

Perthynas â'r Meistr

Wythnos 5 - 30 Medi

Iago 5:13-20 Numeri 11:4-6, 10-16, 24-29 Marc 9:38-50



Llun: Y Cenhedloedd Unedig

Iago 5:13-20
Mae gweddi'n bwerus. Nid yw Iago'n amau hynny. Wrth inni ymateb i anghenion eraill mewn gweddi y mae Duw'n ymateb trwy ras. Mynega Iago'r gwirionedd syml ond dwfn hwn yn adnod 13, 'A oes rhywun yn eich plith mewn adfyd? Dylai weddïo.'

Â Iago ymlaen i'n sicrhau mai 'peth grymus iawn ac effeithiol yw gweddi y cyfiawn' (adn 16). Mae'n darlunio'i bwynt trwy gyfeirio at esiampl Elias. Yn ddiddorol, nid disgrifiad ydyw o Elias yn iacháu neb ond disgrifiad ohono'n gweddïo dros y tir. Yr oedd ei weddi gyntaf am i'r glaw beidio a'r ail am i'r glaw ddod fel bod y 'ddaear yn dwyn ei ffrwyth' (adn 18). Yn wahanol i lawer o Eglwys y gorllewin nid oes dim deuoliaeth. Y mae materion ecolegol a materion personol fel ei gilydd yn destun priodol i weddi; nid yw proffwydi'r Hen Destament nac Iago ychwaith yn gwahanu'r sanctaidd a'r seciwlar.

Mae'n gwbl amlwg na chyfyngir ein hymateb a'n gweithgaredd ysbrydol i gylchoedd dynol ond bod iddynt oblygiadau amgylcheddol byd-eang. Y cwbl a wna Iago yw cyfeirio at thema bwysig sy'n rhedeg trwy'r Hen Destament, o stori'r cwymp a'i ganlyniad nid yn unig i fodau dynol, i'r cyfamod â Noa ac addewid Duw i bob creadur byw yn Genesis 8, ac ymlaen i ddatganiadau fel hwnnw yn 2 Cronicl 7:14, y bydd i bobl gyffesu eu pechodau a dychwelyd at Dduw mewn gweddi yn arwain at 'adfer eu gwlad'.

Bydd Cristnogion sydd o ddifrif ynglŷn ag ysbrydolrwydd ac sy'n ystyried bod gweddi'n beth hanfodol yn cymryd o ddifrif yr alwad i weddïo y daw teyrnas Dduw 'ar y ddaear' a gweithio dros hynny, dan hiraethu am adfer y tir. Yn yr un modd, y mae ar y sawl sy'n ymdrechu dros brosiectau amgylcheddol ac sy'n ceisio byw bywydau cynaliadwy ddygn angen nerth Duw trwy weddi.

Numeri 11:4-6, 10-16
I fedru deall y darn hwn rhaid i chwi ddarllen y bennod gyfan, nid yr adnodau detholedig yn unig. Fodd bynnag, y mae'r prif bwyslais yn amlwg. Er i Dduw achub yr Israeliaid o gaethwasiaeth, gorchfygu eu gorthrymwyr a dwyn ei bobl i ryddid gan addo eu harwain i'w gwlad eu hunain, yr oeddent yn dal yn anniddig. Er iddo ddarparu'n wyrthiol at eu hanghenion materol, yn arbennig trwy anfon cyflenwad dyddiol o'r manna, nid oeddent yn fodlon, a dalient i hiraethu am fwydydd eu caethiwed. Achosodd yr aniolchgarwch syfrdanol hwn anniddigrwydd ymhlith y bobl, anfodlonrwydd â'u hamgylchiadau a rhwyg yn y berthynas rhyngddynt a Duw.



O uchelderau llesmeiriol yr unfed ganrif ar hugain mae'n hawdd barnu'r Israeliaid ac eto awgryma archwiliad syml o'n ffyrdd o fyw a'n hagweddau ein bod ninnau'n dioddef o anhunedd ysbrydol cyffelyb. Y mae anfodlonrwydd â darpariaeth ryfeddol Duw, anghofio'i ddaioni ac edrych y tu hwnt i'r hyn sydd gennym at yr hyn sydd gan eraill ac yr ydym ni'n ei chwenychu yn ddisgrifiad rhy gywir efallai o ffordd o fyw y rhan fwyaf o Gristnogion yn y wlad hon. A ydym ninnau'n ymddwyn fel yr Israeliaid gynt?

Clefyd meddiangarwch y gorllewin, anghofrwydd, sydd wrth galon llawer o'n hanfodlonrwydd. Canlyniad ein chwant am fwy yn hytrach na digon yw ein bod wedi gorbysgota ein moroedd, dinoethi ein cynefinoedd naturiol a chamddefnyddio adnoddau'r ddaear hyd at argyfwng. Ac eto yn lle boddhad ni chawsom ddim ond trachwant, elw ac anniddigrwydd mewnol.

Tlodion y byd a'r ddaear dda a roddodd y creawdwr inni sy'n dioddef fwyaf oddi wrth y ras hon am fwy a mwy. Nid rhyfedd bod Duw'n ddig (adn 33)!

Marc 9:38- 50. Mae Iesu'n parhau i ddysgu ei ddisgyblion beth a olyga ei adnabod ef yn feistr a Christ a'i ganlyn ar ei daith i'r groes. Cydnabyddir anawsterau'r daith ond cydnabyddir hefyd y rhai a fydd o'n plaid. Defnyddia'r Arglwydd un ddelwedd i ddarlunio hyn: 'pwy bynnag a rydd gwpanaid o ddŵr i chwi i'w yfed o achos eich bod yn perthyn i'r Meseia, yn wir, rwy'n dweud wrthych, ni chyll ei wobr' (adn 41).

Ar ryw ystyr, diod delweddol o ddŵr yw hwn. Mae'n cyfeirio at bob math o gymorth. Ond y mae iddo ystyr lythrennol hefyd. Dŵr yw'r peth mwyaf gwerthfawr ar y blaned, ond nid oes cyflenwad diderfyn ohono ac y mae llawer lle'n profi sychdwr neu brinder dŵr cynyddol. Fe fyddwn ni, heb feddwl ddwywaith, yn agor tap neu'n gollwng y ffynhonnell fywiol hon i'r draeniau, ond y gwir yw bod mwy na biliwn o bobl yn byw heb ffynhonnell dŵr glân a mwy na 2.5 biliwn heb garthffosiaeth ddigonol. Nid ymddengys bod darparu hynny yn enw Crist i rai o'r biliynau hyn, llawer ohonynt yn Gristnogion, y tu hwnt i'r hyn y mae Iesu'n ei ofyn gan bobl yn y darn hwn.